Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion cyfarfod aml-leoliad y Cyngor Llawn gynhaliwyd 22/11/2022.
Minutes of the hybrid Full Council Meeting held 22/11/2022

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Julie Edwards, Gerry Belanger, Meg Roberts, Nina Bulkeley, Noel Kerr, Geraint Thomas, Gareth Thomas, Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau/Apologies: Alan Wood, Liz Wood, Gordon Warren, Llinos Knowles Williams, Veronica Holdsworth

Wrth Law/In Attendance: Hywel Hughes (cyfieithu/ translation), Carli Evans Thau (clerc/clerk)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies
Bu Gareth Winston Roberts gadeirio'r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol, a'r ddau aelod newydd i'w cyfarfod cyntaf.

Gareth Winston Roberts chaired the meeting and welcomed all present, the two new members to their first meeting.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest
Dim/None

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Myrddin Owens, eilio Gerry Belanger.

The minutes of the last meeting were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Gerry Belanger.

4 Materion yn Codi / Matters Arising

4.1 Ni fu diweddariad am berchnogaeth safle Garej Glanrhos.
There was no update as to who owned the Glanrhos Garage site.

4.2 Cafwyd ymateb gan Mr Alton Murphy mewn perthynas a'r llwybr o Barc Trecastell i'r lon fawr (A5025). Y clerc i'w anfon ymlaen at swyddog tramwy CSYM er gwybodaeth an gofyn am yr arwydidon perthnasol.

A response was received from Alton Murphy with regard to the footpath from Trecastell Parc to the main road (A5025). The clerk to forward to the IACC footpaths officer and request the appropriate signage.

4.3 Mae disgwyl prisiau am y osod ffens ger y clogwyn goffa ym Mhorth Amlwch.
Quotes are expected for erecting a fence by the memorial wall at the Port.

4.4 Cafwyd wybod bod trafodaethau gyda Magnox ynglyn a chefnogaeth ariannol i'r banc bwyd.
It was noted that discussions had taken place with Magnox with regard to financial support for the food bank.

4.5 Cadarnhawyd bod arian wedi ei ddiogelu gan Magnox tuag at oleuadau Nadolig newydd. Bu'r Cyngor gytuno byddai'r goleuadau ymlaen am 4.30 a'u diffod am 10yh i arbed ynni a chostau.

It was confirmed that funding had been secured from Magnox towards new Christmas lights. The Council agreed that the lights be switched on at 4.30 and off at 10pm to save energy and costs.

5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

5.1 Bu diolch i Parch Jenny Clarke am drefnu, ac am y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwasanaeth Sul y Cofio yn yr Eglwys ac wrth y Neuadd Goffa.

Rev Jenny Clarke was thanked for arranging, and for the use of the Welsh language in the Remembrance Sunday Service in the Church and at the Memorial Hall.

5.2 Bu Gareth Winston Roberts dynnu sylw at drafodaethau gyda Mwyngloddio Mon ynglyn a datblygu perthynas rhwng y cwmni, CSYM a'r Cyngor Tref. Bu cydnabod cyfraniad gan y cwmni o £1k yr un i Gylch Meithrin Amlwch, Penysarn ac Amlwch. Bu Meg Roberts diolch i Gareth Winston Roberts am ei waith i ddiogelu arian i'r gymuned leol.

Gareth Winston Roberts informed the group of his discussions with Anglesey Mining, developing a relationship between the company, IACC and the Town Council. A donation from the company of £1k each to Cylch Meithrin Amlwch, Penysarn and Rhosybol was acknowledged. Meg Roberts thanked Gareth Winston Roberts for his work to secure funding for the local community.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodeb gan Myrddin Owens o'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Cafwyd wybod bod y pwyllgor wedi cymeradwyo nifer o daliadau ac atgoffa aelodau i gysylltu a'r clerc os am fwy o wybodaeth. Bu'r pwyllgor drafod un cais am arian a bu argymell bod y Cyngor yn cyfrannu £200 tuag at gostau cynnal Cinio Nadolig Cymunedol. Bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol.

Bu esbonio i'r aelodau newydd nad oedd gan y pwyllgor unrhyw hawliau onibai am faterion staffio a chyflogi. Cafwyd wybod bod y pwyllgor wedi trafod a chytuno ar oriau a thal dau aelod staff ac un contractiwr ac y byddai'r newidiadau yn weithredol o Ionawr 1af, 2023.

Ni fu diweddariad ar y prosiect ynni, cytuno byddai'r Cyngor yn cysylltu ag Archwilio Cymru am gyngor a chanllaw sut i weithredu.

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor i bennu'r gyllideb a'r dreth ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gynnal pnawn Iau Rhagfyr 15 am 2yh. Gobeithir gallu cwrdd a swyddogion adran economaidd CSYM yn yr un cyfarfod. Bu atgoffa'r aelodau bod croeso i pob aelod fynychu unrhyw gyfarfod pwyllgor er nad ydynt yn aelod o'r pwyllgor hwnw, bydd gwahoddiad i gadeiryddion y pwyllgorau fynychu'r cyfarfod cyllideb. Bydd y pwyllgor cyllid yn cyflwyno eu hargymhellion i'r Cyngor Llawn i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Myrddin Owens gave a summary of the committee's last meeting. It was noted that the committee had approved a number of payments, and members were reminded to contact the clerk should they wish for further information. The committee considered one request for funding and recommend that the Council contribute £200 towards the cost of delivering the Community Christmas Dinner. Members were unanimous in their support.

It was explained to the new members that the committee has no powers other than staffing and salary matters. The meeting was informed that the committee had discussed and agreed on the hours and rate of pay for two employees and one contractor and that the changes would be implemented 1st January 2023.

There was no update on the energy project, agreed that the Council contact Audit Wales for advice and guidance how to proceed.

The next committee meeting to consider the budget and rates for the next year will take place Thursday afternoon December 15th at 2pm. It was hoped to be able to meet with IACC economic development officers at the same time. Members were reminded that they are able to attend any committee meeting whether or not they are a member of that committee; committee chairs will be invited to the budget meeting. The finance committee's recommendations will be presented to the full council at the next meeting.

7 Diweddariad y Fynwent / Cemetery Update
Dim/None

8 Diweddariad Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Update
Dim/None

9 Diweddariad Goleuadau Nadolig / Christmas Lights Update
Bydd y goleuadau yn y dref yn cael eu troi ymlaen nos Sadwrn Tachwedd 26 am 5yh.
The lights in town will be switched on Saturday November 26 at 5pm.

10 Materion Cynllunio / Planning Matters

10.1 Ceisiadau / Applications
Bu cadarnhau sylwadau'r aelodau fel a ganlyn: *Members observations were noted as follows:*

- FPL/2022/128 Safle/Site 5 Stad Diwydiannol Amlwch Industrial Estate – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2022/175 – Bwthyn Dysw, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2022/280 – Carmel Cottage, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- LBC/2022/35 – Carmel Cottage, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2022/255 – Gwesty Porth Llechog/Bull Bay Hotel – dim gwrthwynebiad/no objection
- HHP/2022/316 – Arfryn, Porth Llechog – dim gwrthwynebiad/no objection
- HHP/2022/324 – 61 Stryd Mona – dim gwrthwynebiad/no objection

10.2 Penderfyniadau / Decisions
Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / IACC decisions were noted as follows:

- HHP/2022/279 Llwyn Eilian, Llaneilian Rd – caniatad/approved

11 Mwyngloddio Mon / Anglesey Mining
Mater wedi ei drafod eisioes / *Matter already discussed.*

12 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

12.1 Bu gofyn i Aled Morris Jones beth oedd polisi cyfredol CSYM ynglyn a thai gwyliau. Cafwyd wybod bod cyfarfod o fewn yr wythnos ac y byddai'r wybodaeth berthnasol yn cael ei anfon i'r clerc wedi hynnu. Nodwyd pryder bod nifer o dai yn cael eu prynnu gan gwmniau at ddefnydd gwyliau ac nad oedd trethi yn cael eu talu yn lleol. Bu tynnu sylw at esiamplau ym Mhorth Llechog.

Aled Morris Jones was asked what the current IACC policy was with regard to holiday homes. It was noted that there was a meeting within the next week and that the relevant information would be forwarded to the clerk. Concern was noted that a number of houses were being purchased by companies for holiday let and that taxes were not being paid locally. Examples were given in Bull Bay.

12.2 Bu Gerry Belanger ofyn am ddiweddariad am gwynion am rwystro palmant ar Stryd Mona. Y clerc o gysylltu a'r swyddogion perthnasol i drefnu cyfarfod ag o.

Gerry Belanger asked for an update regarding the complaints of blocking the pavement on Mona Street. The clerk to contact the relevant officers to arrange a meeting with Gerry Belanger.

13 Gohebiaeth / Correspondence

13.1 Daw gwybodaeth am gynllun i gau safle'r Ambiwlans Awyr yng Nghaernarfon. Cytuno ysgrifennu i wrthwynebu'r cynllun a chefnogi'r ymdrech i ddiogelu'r gwasanaeth.

Information regarding the proposal to close the Wales Air Ambulance base in Caernarfon was received. Agreed to write objecting to the proposal and supporting the campaign to safeguard the service.

13.2 Daw gwybodaeth pellach am beiriannau dosbarthu dwr. Y clerc i wirio gyda cynghorau eraill costau cynnal a chadw'r fath beiriannau cyn ymateb.

Further information regarding the water dispensers was received. The clerk to contact other councils to check on maintenance and running costs before responding.

14 Materion Eraill / Other Matters

14.1 Bu Gareth Winston Roberts ddatgan na fyddai yn anfon cardiau Nadolig fel Cadeirydd y Cyngor, nac yn trefnu Gwasanaeth Carol, yn hytrach bydd yr arian yn cael ei rannu gyda theuluoedd o Wcrain sydd angen cymorth yn y gymuned.

Gareth Winston Roberts noted that he would not be sending Christmas cards as the Chair of the Council, or arranging a Carol Service. Instead, he will be sharing the money in the community with families from the Ukraine.

14.2 Cytuno yn unfrydol ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri i'w llongyfarch am fabwysiadu'r enwau Cymraeg ar Eryri a'r Wyddfa. Cytuno ysgrifennu at Gymdeithas Pel Droed Cymru i'w cefnogi i ddefnyddio Cymru yn hytrach nac Wales.

Agreed to write to Eryri National Park to congratulate them for adopting the Welsh names for Eryri and Y Wyddfa. Agreed also to write to the Welsh Football Association in support of using 'Cymru' rather than Wales.

14.3 Cadarnhawyd bod cais wedi ei gyflwyno gan Gareth Winston Roberts i gronfa Ysgellog am hyd at £2k y flwyddyn i'r banc bwyd – mae'r arian wedi eu glustnodi ar eu cyfer fel mae ei angen.

Confirmed that an application had been submitted by Gareth Winston Roberts to the Ysgellog fund for up to £2k per annum to the food bank – the funds have been earmarked for the foodbank as required.

14.4 Cafwyd gais am finiau sbwriel ger Pont Joseff, Llaneilian rd a ger y tanc dwr ym Mhnentrefelin. Gofynwyd i gael symud un o'r biniau ym Mhorth Llechog at ymyl y ffordd fawr (ger y gwch).

A request for litter bins by Pont Joseff, Llaneilian rd and by the water tank at Pentrefelin. It was also asked that one of the bins in Bull Bay be moved to the roadside (by the boat).

14.5 Bu gofyn os daw cadarnhad am berchnogaeth yr arfordir i gael gosod meinicau ym Mhorth Amlwch. Meg Roberts i gadarnhau union leoliadau a'r clerc i wirio gyda CSYM.

It was asked if ownership of the coastal land in Amlwch Port had been confirmed so that benches can be installed. Meg Roberts to confirm exact locations with the clerk to then check with IACC.

14.6 Penodwyd Llinos Knowles Williams i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y Neuadd Goffa, a Geraint Thomas i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor Neuadd y Sgowtiaid.

Llinos Knowles Williams was appointed to represent the Council on the Memorial Hall committee, and Geraint Edwards to represent the Council on the Scouts Hall Committee.

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Cynhelir cyfarfod cyffredinol nesaf y Cyngor Llawn 20/12/2022 am 7yh
Bydd cyfarfod y pwyllgor cyllid 15/12/2022 am 2yh

The ordinary Full Council meeting will be held 20/12/2022 at 7pm
The finance committee will meet 15/12/2022 at 2pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 19.50 / The meeting closed at 19.50.

Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd / Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council

CET11/2022